**Pwyllgor Ieuenctid Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP).**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ym Mhencadlys APCAP, Llanion.**

**9 Mai 2023**

**Aelodau'r Pwyllgor Ieuenctid oedd yn bresennol yn y cyfarfod:** Michele Chung. Sara Davies. Seb Landais. Ball Callum. Jack Davies.

**Hwyluswyr:** Maisie Sherratt a Graham Peake

**Ymwelwyr:** Katie Macro

## Materion a drafodwyd

| Eitem ar yr Agenda | Trafodaeth | Gweithredu |
|---|---|---|
| 1. | Dal i fyny / Mewngofnodi.<br>- Ymddiheuriadau – Demi Lee Cole. | |
| 2. | Katie Macro – Ariannu Allanol a Mewnol<br>- Cyllid ar gyfer prosiectau – Y 1000 diwrnod 1af / Gwreiddiau (Kelly Davies a Tom Bean).<br>- Y grantiau sydd ar gael i ysgolion / prosiectau.<br>- Y cyfleoedd sydd ar gael ar y cyfryngau cymdeithasol i'r Genhedlaeth Nesaf fod yn rhan ohonynt.<br>- Digwyddiadau cydweithredol yn y dyfodol. Sioe Martletwy. Sioe Penfro. Diwrnod chwarae Llys-y-frân. | Maisie a'r Pwyllgor Ieuenctid i drafod a fyddant ar gael yn y cyfarfod nesaf i weld pa ddyddiadau sy'n gyfleus iddynt. |
| 3. | Cyfarfod gydag Aelodau APCAP – rhannwyd detholiad o'r cofnodion.<br>- Fideo'r Genhedlaeth Nesaf ar gael yn awr ar YouTube APCAP – bydd ar gael ar y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol cyn hir. | |
| 4. | Ymweliad â Wardeniaid Ieuenctid Bannau Brycheiniog<br>- Diwrnodau a gweithgareddau yn y dyfodol. Hydref 8fed – Wardeniaid Ieuenctid Bannau Brycheiniog i ymweld ar gyfer diwrnod gweithgaredd ar y cyd yn Ne PCAP.<br>- Chris Taylor | Maisie i drafod gweithgareddau yn Ne Sir Benfro gyda Chris Taylor. |

| | | |
|---|---|---|
| 5. | Calendr ar gyfer postiadau cymdeithasol – Parcmyn Ieuenctid a’r Pwyllgor Ieuenctid<br>- Lluniau gan Dave yng Nghoedwig Mynwar wedi'u rhannu â'r grŵp.<br>- Capsiwn ar gyfer postiad a sylwadau. | Maisie i rannu lluniau dethol gyda Medi ar gyfer postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol a’r wefan. |
| 6. | Diwrnod(au) Recriwtio / Ymgysylltu<br>- Yr un pryd â digwyddiadau Ymddiriedolaeth PCAP? | Y Parti yn y Parc wedi'i ganslo - dyddiad i'w aildrefnu.<br>Maisie i fynychu diwrnod ymgysylltu cymunedol yn Neyland (21/05) – Andrew Desborough i fynychu Diwrnod Cymunedol Neyland. |
| 7. | Unrhyw Fater Arall<br>PRESWYL – Grant Ariannu Sgiliau Gwyrdd<br>Canol Awst/Dechrau Medi. | Maisie i gysylltu â Hosteli lleol i gael prisiau penwythnos ar gyfer gwirfoddolwyr y Genhedlaeth Nesaf a staff APCAP.<br>- Awst 11eg neu Awst 18fed ? |
| 8. | Allan-gofnodi. | |

Postiad ar y Cyfryngau Cymdeithasol - Bu gwirfoddolwyr Cenhedlaeth Nesaf PCAP yn cymryd rhan mewn diwrnod symudedd yn yr awyr agored yng Nghoedwig Mynwar, gan ddysgu popeth am Dreiciau Mynydd a Rholiadur Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Cafodd pawb dro ar eu defnyddio, a chael profiad o ddefnyddio'r offer ar dir anwastad.

Diolch yn fawr iawn i’r Swyddog Dewch i Gerdded, Sam Evans, am rannu ei gwybodaeth ac addysgu’r grŵp sut i ddefnyddio’r offer yn ddiogel.

Seb – 'Os byddwn yn rhoi ein hunain yn esgidiau'r rhai sy'n dibynnu ar yr offer hwn, byddwn yn gwybod sut brofiad yw defnyddio'r offer a beth i'w wneud'.

Michele – 'Braf oedd cael gwybod am hygyrchedd yn ein Parc Cenedlaethol'.

Jack – 'Roedd yn ddiwrnod llawn hwyl yn dysgu popeth am hygyrchedd a'r offer'.

Maisie – 'Dangosodd gwirfoddolwyr y Genhedlaeth Nesaf barch ac amynedd anhygoel wrth ddefnyddio'r Treic Mynydd, ond yn enwedig y Rholiadur. Mae'n bwysig eu bod yn deall y rhwystrau a wynebir i gael mynediad yn ein Parc Cenedlaethol, a'r hyn y mae APCAP yn ei wneud i oresgyn y rhwystrau hynny. Erbyn diwedd sesiwn Sam, roedd y criw wedi blino’n llwyr ar ôl gwthio ei gilydd o gwmpas! Mae'r gwaith y mae Sam yn ei wneud o fewn ei grwpiau Dewch i Gerdded yn anhygoel, a gall gwirfoddolwyr y Genhedlaeth Nesaf yn awr werthfawrogi'r amser a'r ymdrech anferthol y mae Sam yn ei roi i'w gwaith.'